# Ymgynghoriad ar gael gwared ar y gofyniad i ddefnyddio'r pictograff 'Do Not Eat' ar ddeunyddiau gweithredol a deallus a ddaw i gysylltiad â bwyd

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 13 Gorffennaf 2022
Dyddiad cau: 10 Awst 2022

## Crynodeb o ymatebion

### England and Wales

PDF
Gweld Summary of stakeholder responses: Consultation on removal of the requirement to use the 'Do Not Eat' pictograph on active and in as PDF(Open in a new window) (198.05 KB)


## Crynodeb o ymatebion

### England and Wales

PDF
Gweld Summary of stakeholder responses: Consultation on removal of the requirement to use the 'Do Not Eat' pictograph on active and in as PDF(Open in a new window) (198.05 KB)


## I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb mwyaf i'r diwydiannau bwyd a deunydd pecynnu, yn enwedig y rheiny sy'n cynhyrchu ar lefel genedlaethol, ac sy'n defnyddio deunyddiau ac eitemau gweithredol neu ddeallus y bwriedir iddynt, neu y disgwylir yn rhesymol iddynt, ddod i gysylltiad â bwyd. Bydd hefyd o ddiddordeb i ddefnyddwyr.

## Pwnc yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r pictograff 'Do Not Eat' ar eitemau gweithredol neu ddeallus a roddir ar farchnad Prydain Fawr. Mae Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n ymwneud â deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon, ac o dan delerau cyfredol Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Bydd cynhyrchion a roddir ar farchnad Gogledd Iwerddon yn parhau i ddefnyddio pictograff 'Do Not Eat' yr UE.

## Diben yr ymgynghoriad

Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn cynnig cael gwared ar y gofyniad i ddefnyddio’r pictograff ‘Do Not Eat’ ar eitemau sy’n cael eu rhoi ar farchnad Prydain Fawr. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio safbwyntiau rhanddeiliaid ar y newid polisi arfaethedig mewn perthynas â’r gofynion o ran y pictograff ‘Do Not Eat’ ar gyfer deunyddiau ac eitemau gweithredol neu ddeallus ar y farchnad ym Mhrydain Fawr.

## Pecyn ymgynghori

PDF
Gweld Ymgynghoriad ar y pictograff 'Do Not Eat' as PDF(Open in a new window) (245.59 KB)

## Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i’r ymgynghoriad hwn at tim.chandler@food.gov.uk

## Cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae’r ymgynghoriad hwn wedi’i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi’i lunio, bydd wedi’i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.